



MA

Astudiaethau Caplaniaeth

(gan gynnwys Tystysgrif Ôl-radd a Diploma)

www.stpadarns.ac.uk/cy/MAAstudiaethauCaplaniaeth

Mewn Partneriaeth â Common Awards Prifysgol Durham

Darparwr Unigryw

Mae rhaglen Astudiaethau Caplaniaeth Athrofa Padarn Sant yn ddatblygiad unigryw sy'n cefnogi caplaniaid sydd mewn gwasanaeth yn eu harferion a'u gweinidogaeth. Bydd ein rhaglen yn ehangu'ch syniadau a'ch ymwybyddiaeth o'r agweddau damcaniaethol ac ymarferol ar eich gwaith.

Athrofa Padarn Sant, ydy adain hyfforddi'r Eglwys yng Nghymru. O dan ei datganiad 'ffurfiant mewn cymuned ar gyfer cenhadaeth', mae'r Athrofa'n paratoi ac yn grymuso pobl Duw ledled y byd i gyfleu cariad trawnewidiol Duw. Mae gan Athrofa Padarn Sant dros 20 mlynedd o brofiad ac enw da ac fe gydnabyddir yn rhyngwladol fel un o brif ddarparwyr hyfforddiant caplaniaeth arbenigol y Deyrnas Unedig.

Paratoi Ymarferwyr Effeithiol

Mae rhaglen Astudiaethau Caplaniaeth Athrofa Padarn Sant yn canolbwyntio ar ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus uwch i gaplaniaid ond fe all fod yn addas i rai eraill.

Mae'r rhaglen yn un hyblyg ac wedi ei gynllunio felly i adlewyrchu eich ymrwymadau gwaith parhaus. Mae'r MA cyfan yn cymryd tair blynedd yn rhan-amser, a gallwch gofrestru ar gyfer hynny o'r dechrau'n deg. Fel arall, gallwch gofrestru ar gyfer y Dystysgrif un flwyddyn, ac ar ddiwedd y flwyddyn honno, penderfynu naill ai parhau â'r Ddiploma dwy flynedd, neu ymadael gyda'r dystysgrif.

Mae'r addysgu'n cael ei wneud gan gaplaniaid arbenigol ac arbenigwyr academiaidd sydd wedi'u dewis yn ofalus ar sail eu gallu i'ch paratoi ar gyfer arweinyddiaeth yn eich rôl.

Mae'r cwrs wedi'i ddilysu gan Brifysgol Durham. Mae Durham yn un o'r 24 o brifysgolion ymchwil-ddwys sy'n aelodau o'r Grŵp Russell. Ochr yn ochr â'n ffocws academiaidd, mae gennym brofiad helaeth o baratoi caplaniaid sy'n ymarfer i fod yn fwy effeithiol yn y rheng flaen. Rydym wedi ymrwymo i wella'n barhaus drwy adborth myfyrwyr i ddarparu hyfforddiant rhagorol.

Yn Athrofa Padarn Sant, rydym yn cynnig gwaith dysgu sydd wedi'i dargedu ar eich arbenigedd chi. Bydd y mwyafrif o'ch modiwlau'n cael eu hastudio gyda chymheiriaid sy'n gweithio yn yr un maes neu faes tebyg. Ceir cyfle hefyd i astudio ochr yn ochr â chaplaniaid sy'n gwasanaethu mewn sectorau eraill, er enghraifft addysg, iechyd, y fyddin, carchar neu chwaraeon. Rydym yn arbennig o falch mai ni sy'n dal contract cenedlaethol y Weinyddiaeth Amddiffyn ers 1999.

Mae Athrofa Padarn Sant wedi ymrwymo i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ym mhob polisi, gweithdrefn, swyddogaeth a gweithgaredd i alluogi myfyrwyr ag anabledau i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd academiaidd a chymdeithasol yr Athrofa.

Cwrs i Bobl Broffesiynol sy'n Gweithio

I ateb anghenion pobl broffesiynol sy'n gweithio, mae'r addysgu'n digwydd mewn pedwar bloc dwys bob blwyddyn. Ym mlwyddyn tri, anogir y myfyrwyr i fynychu'r cyfnodau preswyl fel aelodau o'n cymuned ddysgu a gweithio ar eu traethawd hir gyda mynediad i'r llyfrgell a'r staff addysgu. I gwblhau'r MA Astudiaethau Caplaniaeth, mae'n rhaid ichi gwblhau chwe modiwl a addysgir a thraethawd hir 15,000 o eiriau.

Blwyddyn 1 (enghreiffiol) Tystysgrif Ôl-radd	Blwyddyn 2 (enghreiffiol) Diploma Ôl-radd	Blwyddyn 3 MA
Ymchwil a Myfyrio: Sylfaen mewn sgiliau ymchwil Materion Moesegol mewn Caplaniaeth: Ynghylch penderfyniadau anodd Caplaniaeth a Chenhadaeth Cristnogol: Cysylltu a'n cyd-destun	Persbectif a Sgiliau mewn Caplaniaeth: Archwilio gwahanol ffyrdd o ymdrin a chaplaniaeth Byw Gweinidogaeth Gyhoeddus: Sut rydym yn cynrychioli cymunedau ffydd Ymarfer Myfyriol: Bod yn ymarferwyr diogel ac effeithiol	Traethawd hir:

Mae'r cyfnodau preswyl yn cael eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Mercher ar ein safle yng Nghaerdydd lle mae gennyn ni lyfrgell helaeth ac ystafelloedd addysgu â chyfarpar da. Mae croeso ichi addoli ochr yn ochr ag aelodau o'n coleg diwinyddol yn ein capel deniadol. Mae ein llety en-suite yn fodern ac wedi'i adeiladu'n bwrpasol.

Photo of chaplain outside Ashworth Hospital courtesy Mersey Care NHS Foundation Trust.

Tîm Addysgu Arbenigol gydag Adborth Rhagorol

Y Parch Ddr Julian Raffay yw Cyfarwyddwr Astudiaethau Caplaniaeth yr Athrofa. Mae wedi gweithio'n helaeth mewn caplaniaeth iechyd meddwl ac mae ganddo brofiad sylweddol o weinidogaeth blwyf. Bu'n gwasanaethu'n ddiweddar fel caplan ymchwil. Mae Julian wedi gwasanaethu mewn gwasanaethau Diogel lawn. Mae wedi cyhoeddi'n eang. Lluniodd ei draethawd ar 'Y Berthynas rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chymunedau Ffydd'. Mae diddordebau academaidd Julian yn cynnwys moeseg, cyd-gynhyrchu, a theori gadarn.

Y Padre David Crees yw Dirprwy Bennaeth a Phrif Hyfforddwr Canolfan Gaplaniaeth y Lluoedd Arfog yn yr Academi Amddiffyn. Ef sy'n arwain gwaith addysgu moesegol Adran Caplaniaid Brenhinol y Fyddin i Swyddogion Iau a Phrif Swyddogion. Ers 2004, mae David wedi gwasanaethu 11 uned gan gynnwys teithiau yn Irac ac Affganistan. Mae'n gwneud ymchwil ddoethurol yn yr arddulliau arwain a fabwysiedir gan gaplaniaid Byddin Prydain.

Y Parch Athro Jeremy Duff yw Pennaeth Athrofa Padarn Sant. Mae'n angerddol ynglŷn â ffurfiant a chenhadaeth. Arbenigeddau Jeremy yw Astudiaethau'r Testament Newydd a Datblygu Arweinyddiaeth. Mae ganddo restr gyhoeddiadau helaeth. Cyn hynny bu'n ficer cymuned drefol ger Lerpwl.

Mae'r **Parch Ganon y Dr David Grimwood** wedi gwasanaethu mewn plwyfi yn Newcastle upon Tyne a Hampshire. Ym 1993, fe'i penodwyd i arwain 'Yr Eglwys yn y Gymdeithas'. Yn 2008, ar ôl ennill MA mewn Cenhadu ac Ymgynghori, sefydlodd ymgynghoriaeth yn y sector gwirfoddol. Cyfrannodd hefyd at 'Entering the New Theological Space' (2009).

Parch Ddr Jordan Hillebert yw'r Cyfarwyddwr Ffuriant Athrofa Padarn Sant. Cwblhaodd ei PhD yn St Andrews. Ei bynciau arbenigol yw athrawiaeth a moeseg Gristnogol. Mae gan Jordan hanes cyhoeddi helaeth.

Y Parch Ddr Manon James yw Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion yn Athrofa Padarn Sant. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys Diwinyddiaeth Gyd-destunol Cymru, Diwinyddiaeth Ffeministaidd, a defnyddio Barddoniaeth mewn Ymchwil Ddiwinyddol. Cyhoeddwyd PhD Manon gan Wasg Prifysgol Cymru fel 'Women, Identity and Religion in Wales: Theology, Poetry, Story'.

Athro Andrew Parker. Bu Andrew'n Athro Chwaraeon ac Allgymorth Cristnogol ym Mhrifysgol Sir Gaerloyw (2008–18). Bu'n Athro Cysylltiol yng Nghyfadrannau y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Warwick (1999-2008) lle cwblhaodd ei PhD ym 1997. Cafodd ei alw i'r Bar gan Gray's Inn yn 2009. Mae Andrew wedi cyhoeddi dros 10 o llyfrau wedi'u golygu a 100 o erthyglau, papurau gwaith ac adroddiadau a gomisiynwyd.

Y Dr Charles Shepherd yw Cyfarwyddwr Strategaeth Ddysgu, Adnoddau a Thechnoleg Athrofa Padarn Sant. Mae'n ysgolhaig Beiblaidd sydd â PhD gan Brifysgol Durham. Ei arbenigedd yw Diwinyddiaeth yr Hen Destament ac Esboniadaeth Ddiwinyddol. Mae gan Charlie gryn brofiad yn ieithoedd y Beibl.

I wneud cais

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf. Y meini prawf mynediad arferol yw gradd 2:1 gyda dwy flynedd o brofiad o gaplaniaeth neu radd 2:2 gyda phrofiad proffesiynol sylweddol.

Mwy o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Tina Franklin, Cydlynnydd Ôl-raddedigion a'r Gofrestrfa.**

Ar: tina.franklin@stpadarns.ac.uk neu 02920 838009

neu ewch i'n gwefan www.stpadarns.ac.uk/MAAstudiaethauCaplaniaeth.

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
Rhif Elusen Gofrestredig 1142813

Y ffotograff o gaplan y tu allan i Ysbyty Ashworth drwy garedigrwydd Mersey Care NHS Foundation Trust